Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2024 Rhif 38 (Cy. 13)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Rhwydweithiau Gwresogi) (Cymru) 2024

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru yn unig, yn rhagnodi amodau sydd i'w bodloni i fod yn gymwys i gael rhyddhad rhwydweithiau gwresogi rhag atebolrwydd am ardrethu annomestig.

Mae rheoliad 2 yn nodi ystyr "rhwydwaith gwresogi" o ran cymhwystra ar gyfer rhyddhad rhwydweithiau gwresogi.

Mae rheoliad 3 yn rhagnodi'r amodau sydd i'w bodloni o dan baragraff 6(1)(b) o Atodlen 4ZA i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth yr Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif 38 (Cy. 13)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Rhwydweithiau Gwresogi) (Cymru) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *15 Ionawr 2024* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *17 Ionawr 2024* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan baragraff 6(1)(b) a (2) o Atodlen 4ZA i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**).

**Enwi, dod i rym a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Rhwydweithiau Gwresogi) (Cymru) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2024.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.

**Ystyr rhwydwaith gwresogi**

**2.** At ddibenion paragraff 6 o Atodlen 4ZA i'r Ddeddf, ac at ddibenion rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn, ystyr "rhwydwaith gwresogi" yw cyfleuster sy'n cyflenwi ynni thermol o ffynhonnell ganolog at ddibenion—

(a) gwresogi gofod,

(**1**) 1988 p. 41. Mewnosodwyd Atodlen 4ZA gan adran 1 o Ddeddf Ardrethu Annomestig 2023 (p. 53). Gweler paragraff 11 o Atodlen 4ZA am y diffiniad o "the appropriate national authority". Gweler adran 146(6) am y diffiniad o "prescribed".

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) oeri gofod, neu

(c) gwresogi dŵr domestig.

### Yr amodau ar gyfer rhyddhad

**3.**—(1) Yr amodau sydd i'w bodloni at ddibenion paragraff 6(1)(b) o Atodlen 4ZA i'r Ddeddf yw, am y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y codir swm ynglŷn ag ef sydd o dan sylw, ei bod yn ymddangos i'r awdurdod bilio y mae'r rhwydwaith gwresogi yn ei ardal y bydd yr ynni thermol a gyflenwir gan y rhwydwaith gwresogi yn cael ei gynhyrchu o ffynhonnell garbon isel.

(2) Caiff y ffynhonnell garbon isel fod ar yr hereditament o dan sylw neu ar hereditament gwahanol.

(3) Yn y rheoliad hwn—

mae i "awdurdod bilio" yr ystyr a roddir i "billing authority" gan adran 144(2) o'r Ddeddf;

mae i "diwrnod y codir swm ynglŷn ag ef" yr ystyr a roddir i "chargeable day" gan adran 43(3) o'r Ddeddf;

ystyr "ffynhonnell garbon isel" ("*low-carbon source*") yw ffynhonnell sy'n cynhyrchu ynni thermol y mae'r canlynol yn wir amdano—

(a) mae o leiaf 75% ohono yn wres a gydgynhyrchir,

(b) mae o leiaf 50% ohono yn wres adnewyddadwy,

(c) mae o leiaf 50% ohono yn wres gwastraff, neu

(d) mae o leiaf 75% ohono yn gyfuniad o wres adnewyddadwy, gwres gwastraff neu wres a gydgynhyrchir;

ystyr "gwres adnewyddadwy" ("*renewable heat*") yw ynni thermol a gynhyrchir gan beiriannau a pheirianwaith ynni adnewyddadwy a eithrir, fel y'u diffinnir ym mharagraff (d) yn Nosbarth 1 o'r Atodlen i Reoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Peiriannau a Pheirianwaith) (Cymru) 2000(**1**);

ystyr "gwres a gydgynhyrchir" ("*cogenerated heat*") yw ynni thermol a gynhyrchir yn yr un broses ac ar yr un pryd ag ynni trydanol neu ynni mecanyddol;

ystyr "gwres gwastraff" ("*waste heat*") yw ynni thermol a gynhyrchir yn anochel fel sgil-gynnyrch proses arall ac na fyddai unrhyw ddefnydd iddo heblaw at ddibenion rhwydwaith gwresogi.

---

(**1**) O.S. 2000/1097 (Cy. 75), a ddiwygiwyd gan O.S. 2023/1229 (Cy. 217); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o
Weinidogion Cymru
15 Ionawr 2024